

Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2024-25

Tachwedd 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddPLI

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Pwyllgor y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPLI@senedd.cymru**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2024-25

Tachwedd 2023



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 14 Gorffennaf 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddPLI

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
David Rees AS
Llafur Cymru



Janet Finch-Saunders AS
Ceidwadwyr Cymreig



Peredur Owen Griffiths AS
Plaid Cymru



Llyr Gruffydd AS
Plaid Cymru



Joyce Watson AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Casgliadau ac argymhellion.....	5
1. Cyflwyniad.....	6
Cyd-destun cefndirol craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol.....	6
Cyflwyno amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2024-25	7
Cytuno ar Ddatganiad o Egwyddorion y Pwyllgor Cyllid.....	8
2. Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2024-25	9
Cyfrifon y Comisiwn Etholiadol 2022-23.....	9
Estyn yr etholfraint.....	10
Amcangyfrif y Comisiwn Etholiadol 2024-25.....	12
Amcangyfrif Diwygiedig 2024-25.....	18
Adroddiadau gan y Comisiwn Etholiadol	19
Adroddiad ar etholiadau lleol mis Mai 2023.....	19
Adroddiad ar gywirdeb a chyflawnrwydd y cofrestrau etholiadol	19
Cynllun Corfforaethol y Comisiwn Etholiadol.....	19
Barn y Pwyllgor	20
Atodiad A: Yr Amcangyfrif Ariannol ar gyfer 2024-25.....	23

Casgliadau ac argymhellion

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r sicrwydd a ddarparwyd gan y Comisiwn fod yr holl gostau uniongyrchol a gynhwysir yn yr amcangyfrif ariannol diwygiedig ar gyfer 2023-24 yn ymwneud â gwaith y Comisiwn ar etholiadau datganoledig Cymru ac y dylid eu priodoli i ronfa Gyfunol Cymru..... Tudalen 21

Casgliad 2. Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor yn fodlon bod yr amcangyfrif ariannol diwygiedig ar gyfer 2024-25 yn gyson â'r ffordd y mae'r Comisiwn yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig Cymru yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol..... Tudalen 21

Casgliad 3. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'r cynnydd cyflog a ragwelir yn cyfateb i'r cyflogau y mae gweithrediaeth genedlaethol PCS yn galw amdanynt, ac y gallai hyn arwain at gyllideb atodol bellach gan y Comisiwn y flwyddyn nesaf. Tudalen 21

Casgliad 4. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y Comisiwn wedi gwneud penderfyniadau ar gostau cyfalaf megis symud swyddfa yng Nghaerdydd heb roi manylion am ei benderfyniadau i'r Pwyllgor..... Tudalen 21

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn Etholiadol yn cynnwys alldroeon gwirioneddol a rhagamcanol wrth gyflwyno ei Brif Amcangyfrif i'r Pwyllgor, a hynny mewn ffordd sy'n glir ac yn hawdd ei deall. Tudalen 21

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn Etholiadol yn parhau i ddatblygu set o fesurau i werthuso a yw'r buddsoddiad uwch mewn rheoleiddio yn cynnig gwerth am arian. Tudalen 21

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, ar faterion sy'n ymwneud â gwariant yng Nghymru, bod y Comisiwn Etholiadol yn cadw mewn cysylltiad agosach a mwy rheolaidd ac yn rhoi gwybodaeth fanwl mewn amser real am benderfyniadau a wneir..... Tudalen 22

1. Cyflwyniad

Dyma adroddiad Pwyllgor y Llywydd ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2024-25.

Cyd-destun cefndirol craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol

1. Telir am waith y Comisiwn Etholiadol (y Comisiwn) ar etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig Cymru o Gronfa Gyfunol Cymru. Pwyllgor Llywydd y Senedd (y Pwyllgor) sy'n gyfrifol am graffu ar faint o arian y gofynnir amdano i'r diben hwn fel y nodir yn yr amcangyfrifon ariannol a gyflwynir i'r Pwyllgor bob blwyddyn gan y Comisiwn Etholiadol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am graffu ar gynlluniau pum mlynedd y Comisiwn Etholiadol sy'n ymwneud â'i waith ar etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig Cymru.

2. Yn ôl Rheolau Sefydlog 20.20A a 20.20B y Senedd:

“Rhaid i'r Comisiwn Etholiadol gyflwyno amcangyfrif o'i incwm a'i wariant y gellir ei briodoli i arfer ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig yng Nghymru, fel sy'n ofynnol o dan baragraff 16A o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, i Bwyllgor y Llywydd o dan Reol Sefydlog 18B.2 cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ond erbyn 1 Hydref fan bellaf.” (20.20A)

“Rhaid i Bwyllgor y Llywydd:

(i) ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru ac ystyried unrhyw gyngor a roddwyd iddo ganddynt, ac;

(ii) ar ôl rhoi sylw i unrhyw adroddiadau a wnaed iddo gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ac unrhyw argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau;

ystyried a gosod gerbron y Senedd, heb fod yn hwyrach na 22 Tachwedd, adroddiad yn cynnwys yr amcangyfrif, gydag unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol ym marn y Pwyllgor, ar ôl iddo ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ac ystyried unrhyw sylwadau a wnaed ganddo.”¹ (20.20B)

3. Ar adegau penodol (h.y. yn dilyn etholiad y Senedd neu ar gais Pwyllgor y Llywydd) rhaid i'r Comisiwn Etholiadol hefyd gyflwyno i'r Pwyllgor gynllun pum mlynedd sy'n nodi nodau ac amcanion y Comisiwn Etholiadol yn ymwneud ag etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig Cymru yn y pum mlynedd dilynol. Bu'r Pwyllgor yn ystyried a chymeradwyo'r cynllun yn ei adroddiad ym mis Tachwedd 2021.

4. Rhaid i'r Pwyllgor graffu ar unrhyw amcangyfrifon a chynlluniau a gyflwynir iddo gan y Comisiwn er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'r ffordd y mae'r Comisiwn yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig Cymru yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

5. Yna, bydd yr amcangyfrif a osodir gan y Pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 20.20B yn ymddangos yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol, i'w gytuno gan Senedd²

Cyflwyno amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2024-25

6. Cyflwynodd y Comisiwn ei amcangyfrif ariannol ar gyfer 2024-25 i'r Pwyllgor ar 28 Medi 2023.

7. Cyfarfu'r Pwyllgor ar 7 Tachwedd 2023 i graffu ar yr amcangyfrif a'r cynllun Roedd y cynrychiolwyr a ganlyn o'r Comisiwn yn bresennol yn y cyfarfod:

¹Senedd, Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Rheolau Sefydlog 20.20A a 20.20B.

² Gweler [Rheol Sefydlog](#) 20 am esboniad o broses cyllideb y Senedd.

- Yr Athro y Fonesig Elan Closs Stephens CBE (Comisiynydd Etholiadol Cymru)
- Shaun McNally CBE (Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu)
- David Moran (Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro)
- Rhydian Thomas (Pennaeth y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru)

8. Rhaid i'r Pwyllgor ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar unrhyw amcangyfrifon a chynlluniau a gyflwynir iddo gan y Comisiwn, a rhaid iddo roi sylw i unrhyw gyngor a ddarperir gan Weinidogion Cymru cyn penderfynu a yw'n fodlon â'r amcangyfrifon a'r cynlluniau. Rhannodd y Pwyllgor amcangyfrif y Comisiwn ar gyfer 2024-25 gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a hefyd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 2 Hydref 2022. Cafwyd cyngor y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ar 19 Hydref 2022³

Cytuno ar Ddatganiad o Egwyddorion y Pwyllgor Cyllid

9. Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd wedi cyhoeddi cyfres o egwyddorion, a elwir yn **Ddatganiad o Egwyddorion**, y mae'n disgwyl i gyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru roi sylw iddynt wrth wneud cynigion cyllidebol e.e. y dylid gosod ceisiadau cyllidebol yng nghyd-destun y sefyllfa gyllido ariannol hirdymor yng Nghymru a phwysau cyllido yn y sector cyhoeddus ehangach. Mae'r Comisiwn yn un corff o'r fath a gofynnwyd iddo gadw at yr egwyddorion hyn wrth baratoi ei amcangyfrif ariannol ar gyfer 2024-25. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cytuno i fabwysiadu datganiad o egwyddorion y Pwyllgor Cyllid, er mwyn ategu ei waith craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn.

³ Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 24 Hydref 2022.

2. Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2024-25

Mae'r bennod hon yn crynhoi gwaith craffu'r Pwyllgor ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn ar gyfer 2024-25.

10. Cyfanswm yr amcangyfrif a gyflwynwyd gan y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25 oedd £1.658 miliwn. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 17 y cant o'i gymharu â'r amcangyfrif ar gyfer 2023-24 (er nad yw hyn yn cyfrif am y cyllid ychwanegol a geisiwyd gan y Comisiwn drwy gyllideb atodol a fydd yn cael ei hystyried ym mis Chwefror 2023 - sydd, pe bai'n cael ei gymeradwyo, yn golygu y byddai'n gynnydd o 13 y cant). Mae'r amcangyfrif yn Atodiad A.

Cyfrifon y Comisiwn Etholiadol 2022-23

11. Gosododd y Comisiwn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2022-23⁴ gerbron y Senedd ar 13 Medi 2023. Roedd hyn yn cynnwys adroddiad blynyddol Cymru (datganoledig) ar gyfer 2022-23, yn nodi gwaith y Comisiwn ar faterion datganoledig yng Nghymru. Roedd hefyd yn rhoi dadansoddiad o wariant yn ymwneud â gweithgareddau yng Nghymru.

12. Yn ôl yr adroddiad, roedd y Comisiwn wedi defnyddio £1.51 miliwn o adnoddau o'r £1.54 miliwn a oedd ar gael yn ystod 2022-23. Mae hyn yn cynrychioli tanwariant o £28,000 (neu 2 y cant).

13. Mae'r Comisiwn yn cyflwyno ei wariant o dan ddau bennawd: staffio £1.14 miliwn; a nwyddau a gwasanaethau £0.4 miliwn. Mae hyn yn wahanol i'r ffordd y mae'n cyflwyno ei amcangyfrifon, a gyflwynir fel costau uniongyrchol ac anuniongyrchol. Nododd y Pwyllgor fod hyn yn ei gwneud hi'n anodd dadansoddi alldro ar yr un sail â'r cyflwyniadau amcangyfrif.

14. Er bod data alldro yn cael eu cyhoeddi yn yr adroddiad blynyddol yn unol â chanllawiau cyfrifo, yn ystod gwaith craffu ar yr Amcangyfrif blaenorol, ar 7 Tachwedd 2022, nododd y Pwyllgor nad yw data alldro'n cael eu cynnwys yn yr

⁴ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23

amcangyfrif blynyddol i'r Pwyllgor. Ar y pryd ymrwymodd Shaun McNally i ddarparu alldro rhagamcanol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol wrth gyflwyno ei Brif Amcangyfrif er mwyn galluogi cymariaethau.

15. Holodd y Pwyllgor y Comisiwn ynghylch sut yr oedd wedi cynnwys y wybodaeth hon yn amcangyfrif 2024/25, esboniodd Shaun McNally:

So, in terms of the projected costs, I thought that we had, in submitting the further details on our budget line estimates, prepared that. The additional costs for this year have been set out within the supplementary estimate. Those are the only additions to the projections in the budget for the current financial year.⁵

16. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys, ond hoffem weld costau rhagamcanol cliriach yn cael eu cyflwyno mewn fformat tebyg i Amcangyfrif y Comisiwn.

Estyn yr etholfraint

17. Galluogodd Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 i bobl ifanc 16 a 17 oed a gwladolion tramor bleidleisio yn etholiadau'r Senedd am y tro cyntaf. Daeth y darpariaethau ar gyfer estyn yr etholfraint i'r grwpiau hyn i rym ar gyfer etholiadau a gynhaliwyd ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny.

18. Yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2022-23 amlinellodd y Comisiwn ei waith parhaus ac yn y dyfodol; nododd:

Rydym yn gweld angen cynyddol i gefnogi mwy o bleidleiswyr sydd newydd gael yr etholfraint ledled Cymru i gymryd rhan mewn democratiaeth. Felly, byddwn yn ehangu cyrhaeddiad ein rhaglen addysg, gan ddatblygu adnoddau sy'n berthnasol i'r Cwricwlwm newydd i Gymru ac ymgysylltu ymhellach â sefydliadau partner. Ein nod yw addysgu pobl ifanc am y broses

⁵ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2023, paragraff 31

ddemocrataidd a pharatoi addysgwyr i addysgu llythrennedd gwleidyddol â hyder.⁶

19. Nododd Cynllun Corfforaethol Cymru y Comisiwn ar gyfer 2022-23 i 2026-27 sut y bydd yn parhau i dargedu'r grwpiau hyn:

Yn sgil ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 a 17 oed ac i wladolion tramor sy'n byw yng Nghymru, byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod pleidleiswyr newydd yn deall eu cymhwysedd a'u bod yn gallu cymryd rhan yn hyderus yn etholiadau llywodraeth leol 2022 ac etholiad y Senedd 2026.⁷

20. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Comisiwn sut yr oedd yn gweithredu'r gwersi a ddysgwyd o etholiadau datganoledig yng Nghymru wrth ymgysylltu â phleidleiswyr sydd newydd gael yr etholfraint i gynyddu cyfranogiad mewn etholiadau yn y dyfodol. Amlinellodd Rhydian Thomas y cynnydd ar y rhaglen llais ieuencid, eu gwaith parhaus gyda Democracy Box a'r adnoddau y maent yn eu datblygu ar gyfer athrawon.

...we're developing resources for teachers, providing training and guidance on how to effectively deliver democratic education, especially in relation to the new curriculum. It's a real challenge. We've got a board meeting in Cardiff at the end of this month, and one of the sessions on one of the days will be with young people, so that the board can hear from young people, but also educators, to hear from them about the challenges that there are in talking about democracy, talking about politics, with young people, and how they can engage more.⁸

21. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am y gwaith y mae'r Comisiwn wedi'i wneud i nodi gwladolion tramor a sicrhau y gallant gymryd rhan yn hyderus mewn

⁶ Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23

⁷ Cynllun Corfforaethol i Gymru 2022/23 i 2026/27

⁸ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 141

etholiadau yn y dyfodol. Eglurodd Rhydian Thomas fod hyn wedi bod yn anoddach:

The tricky element is actually identifying the groups within our communities, and I know we've tried to work with Members, for example, because they will have the information relating to where these groups are, and with local authorities to identify the groups. It's been a trickier audience, but we'll continue to work with the Government and with local authorities to (a) identify them and (b) get the material out to them that they need in order to register and then to vote.⁹

22. Croesawodd y Pwyllgor y gwaith y mae'r Comisiwn wedi'i wneud ac yn parhau i'w wneud o ran addysgu pobl ifanc 16-17 oed a darparu adnoddau i athrawon.

23. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Comisiwn wedi lleisio pryderon tebyg ynghylch yr anawsterau o ran ymgysylltu â gwladolion tramor yn ystod y sesiwn graffu ddiwethaf yn 2022. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod hwn yn faes anodd, serch hynny byddem am glywed yn y sesiwn graffu nesaf fod y Comisiwn wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran ymgysylltu'n ehangach â gwladolion tramor.

Amcangyfrif y Comisiwn Etholiadol 2024-25

24. Amcangyfrifir mai cyfanswm y cyfraniad sydd ei angen ar y Comisiwn gan Gronfa Gyfunol Cymru yw £1.658 miliwn ar gyfer 2024-25. Mae hyn yn gyfystyr â chynnydd o £244,000 (17 y cant) mewn termau arian parod o'i gymharu ag amcangyfrif y Comisiwn ar gyfer 2023-24 (er nad yw hyn yn adlewyrchu'r cais a wnaed gan y Comisiwn am gyllid drwy amcangyfrif atodol yn 2023-24, a fydd yn cael ei ystyried fel rhan o gyllideb atodol mis Chwefror 2023).

25. Nododd y Cwnsler Cyffredinol yn ei lythyr at y Pwyllgor fod cyfanswm y cyllid y gofynnwyd amdano yn Amcangyfrif y Comisiwn ar gyfer 2024-25 yn "gynnydd o bron i 33% o'i gymharu â'r cynllun pum mlynedd blaenorol"¹⁰. Mae'n nodi ymhellach y bu swm canlyniadol negyddol yn Adolygiad Gwariant 2021 mewn

⁹ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 148

¹⁰ [Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad](#)

perthynas â chyllid y Comisiwn ac mae'r ffigur y gofynnodd y Comisiwn amdano ar gyfer 2024-25 yn fwy na'r cyllid a drosglwyddwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer gwariant y Comisiwn.

26. Mynegodd y Pwyllgor bryder bod y cynnydd yn sylweddol, yn enwedig o'i gymharu â chyrff eraill a ariennir yn uniongyrchol, y mae eu cyllidebau ar gyfer 2024-25 wedi cynyddu 6-8 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Pan gafodd ei holi, dywedodd Shaun McNally fod y Comisiwn wedi cael ei danariannu'n gronig ers blynyddoedd:

My reflection on 20 months as the chief executive and the accounting officer is that there has been historic underinvestment, and I would be, more than anyone, committed to look for efficiencies, if I believed there were efficiencies there to be had. Given what I know from my experience over the last 20 months, actually, I think that the service that we have provided has come at a cost to individuals who have continued to work excessive hours. And at times we have failed in our duty of care to the staff to ensure that they have a proportionate workload and are able to have a proper balance between work and home.¹¹

27. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Comisiwn amlinellu'r effaith y byddai lleihau ei Amcangyfrif yn ei chael, o ran dangosyddion perfformiad allweddol ac yn fwy eang. Eglurodd Shaun McNally y byddai gostyngiad mewn gwariant ar ymgyrchoedd megis cofrestru pleidleiswyr yn golygu y byddai'r Comisiwn yn methu'r targed hwnnw. Yn fwy cyffredinol, dywedodd hefyd:

So, that would obviously have an impact on both our ability to discharge our regulatory functions, the ability to invest in the campaigns, and the ability to support overall reform within Wales.¹²

28. Er bod y Pwyllgor yn pryderu am les staff a gallu'r Comisiwn i gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio cyffredinol, rydym hefyd yn pryderu nad yw cynnydd

¹¹ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 94

¹² Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 159

o 17 y cant yn y gyllideb yn cyd-fynd â sefyllfa cyrff eraill a ariennir yn uniongyrchol, na'r gwasanaeth sifil ehangach.

29. O ganlyniad i waith craffu ar Amcangyfrif y Comisiwn ar gyfer 2023-24, daeth y Pwyllgor i'r casgliad a ganlyn:

Casgliad 3. Ni fyddai'r Pwyllgor am weld cynnydd yn y gwaelodlin hwn yn ystod y blynyddoedd nesaf, a byddai'n disgwyl na fyddai cynnydd sylweddol yn y gwaelodlin pan fydd y gyfres nesaf o etholiadau Cymru yn cael ei gweinyddu. At hynny, pan ddaw gweithgareddau'r Comisiwn mewn perthynas â meysydd fel diwygio'r Senedd i ben, hoffai'r Pwyllgor weld gostyngiad yn y llinell sylfaen Amcangyfrif.¹³

30. Ysgrifennodd y Comisiwn at y Cadeirydd ar 8 Awst i hysbysu'r Pwyllgor bod y Comisiwn wedi bod yn destun ymosodiad seiber cymhleth. Cafodd y digwyddiad ei nodi gyntaf ym mis Hydref 2022, a'i gyhoeddi ym mis Awst 2023. Mae cyfran sylweddol o'r cynnydd yn ymwneud â gwelliannau seiberddiogelwch, gyda chost ragamcanol o £73,000. Pan holwyd Shaun McNally ac Elan Closs Stephens am y cynnydd hwn, gwnaethant nodi mai cywiro tanariannu sylweddol yn y systemau TGCh mewn blynyddoedd blaenorol oedd hyn. Cadarnhaodd Shaun McNally hefyd y byddai'r gost ychwanegol yn parhau yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y costau seiberddiogelwch bellach yn rhai parhaus ac yn cynrychioli cynnydd i'r llinell sylfaen. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu sicrwydd ynghylch gwerth am arian ac effeithiolrwydd y dull a ddefnyddir i wella seiberddiogelwch, o ystyried yr effaith ar y llinell sylfaen.

31. Nododd y Pwyllgor gost ragamcanol y Comisiwn o £65,000 ar gyfer datblygu gweithlu medrus ac amrywiol, a gofynnodd am ragor o fanylion am yr hyn y byddai'n ei olygu. Nododd Shaun McNally yr hyn a ganlyn:

...the areas where we are and where we will be employing more people next year is to strengthen the team in the digital team in terms of cyber and digital. There is a need to strengthen the finance team, and we will be implementing a new human

¹³ Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2023-24

*resources system, which will give us better data and information on equality, diversity and inclusion, but will also enable the commission to operate with an up-to-date HR system in the years ahead.*¹⁴

32. Nododd y Pwyllgor gost ragamcanol y Comisiwn o £44,000 ar gyfer cynyddu capasiti ar draws ei swyddogaethau o ran Cymru, polisïau, materion cyfreithiol, ymchwil a rheoleiddio o ystyried y biliau diwygio etholiadol yng Nghymru, ac roedd ganddo ddiddordeb mewn gweld a oedd hyn wedi'i ddosrannu'n gywir i Gymru, yn unol â llythyr y Cwnsler Cyffredinol. Wrth gael ei holi ar ddyfarniadau cyflog, rhoddodd Shaun McNally sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch dyrannu costau i Gymru, gan nodi:

*...we have not attributed any cost to Wales that should be attributed across to the UK Parliament*¹⁵

33. Wrth graffu ar Amcangyfrif y Comisiwn ar gyfer 2023-24, nododd y Pwyllgor fod un swydd ychwanegol yn canolbwyntio ar ddiwygio etholiadol yng Nghymru. Yn ei adroddiad, argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Comisiwn nodi'r bwriad ar gyfer y swydd hon. Wrth gael ei holi ar hyn, esboniodd Rhydian Thomas fod y swydd wedi'i hariannu'n llawn gan y Senedd i ddechrau, ond ei bod bellach yn cael ei hariannu fel canran.

*In terms of the individual role, there were two roles in the Wales team that were fully funded by the Senedd initially, and by the Llywydd's Committee; they've now been brought into the establishment.*¹⁶

34. Mae Amcangyfrif y Comisiwn yn cynnwys £206,000 ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio, sy'n gynydd o £19,000 (neu 10 y cant) ar y cyllid ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Rhennir dyraniadau rheoleiddio yn dri maes gwariant – cofrestru ac adrodd, monitro a gorfodi, a chymorth rheoleiddio.

¹⁴ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 73

¹⁵ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 103

¹⁶ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 79

35. Yn ei adroddiad ynghylch craffu ar amcangyfrif y Comisiwn ar gyfer 2023-24, nododd y Pwyllgor gynnydd o 70 y cant ar y cyllid ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio ers y flwyddyn flaenorol. Roedd ganddo rai pryderon ynghylch “sut i sicrhau bod gwerth yn y buddsoddiad sylweddol uwch hwn o ran rheoleiddio”. Holodd y Pwyllgor y Comisiwn ynghylch y cynnydd a wnaed o ran yr argymhelliad hwn. Esboniodd Shaun McNally fod y Comisiwn wedi'i chael yn anodd creu mesur addas:

If I can be candid, this has proven to be very difficult, to come up with a quantitative measure. A lot of the effort goes into the qualitative work and the advice, guidance and intelligence that helps to support compliance with electoral law and regulation. We will continue— and it is a commitment— to look at this, to see if we can find a way, to the satisfaction of this committee, to come up with a quantitative as well as a qualitative measure, so that you can track how the money is being invested.¹⁷

36. Nododd y Pwyllgor yr ymrwymiad hwn ac mae'n parhau i fod yn awyddus i weld set addas o fesurau ar gyfer gwerthuso'r gwaith hwn.

37. Mae'r Comisiwn yn nodi bod y dyfarniad cyflog ar gyfer 2024-25 yn sbardun buddsoddi allweddol gyda'i ddyfarniad cyflog a chwyddiant wedi'u hadlewyrchu mewn contractau, a amcangyfrifir i fod yn £74,000, yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y cytunir ar gynnydd o 5 y cant. Pan ofynnwyd iddo pam y gwnaed y rhagdybiaeth hon, dywedodd Shaun McNally:

What we have attempted to do this year in terms of looking at 5 per cent is to have a weather eye on what is happening in terms of inflation, and to avoid a situation where we put in a prudent rather than a pragmatic assumption in relation to pay for next year.¹⁸

¹⁷ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 89

¹⁸ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 121

38. Gofynnodd y Pwyllgor a yw'r Comisiwn wedi bod yn cynnal trafodaethau â'r Undeb Llafur perthnasol ynghylch y dyfarniad cyflog, ac ymatebodd Shaun McNally:

Yes. I have regular discussions. The representative body within the Electoral Commission is the Public and Commercial Services Union, and we know where their national executive has been in terms of their pay demands, which was for 10 per cent.¹⁹

39. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'r cynnydd cyflog a ragwelir yn cyfateb i'r cyflogau y mae gweithrediaeth genedlaethol PCS yn galw amdanynt, ac y gallai hyn arwain at gyllideb atodol bellach gan y Comisiwn y flwyddyn nesaf.

40. Mae costau adnoddau yn cynrychioli cynnydd o £150,000 (neu 49 y cant) mewn termau arian parod o gymharu ag Amcangyfrif 2023-24. Mae'r costau hyn yn ymwneud â chostau swyddfa gefn fel rhent, trethi, glanhau a chyfleustodau ar gyfer swyddfa Caerdydd, TGCh, cyllid, adnoddau dynol a chostau rheoli. Lleisiodd y Pwyllgor bryder arbennig ynghylch y diffyg gwybodaeth mewn perthynas â symud swyddfa fis Chwefror nesaf.

41. Gwnaeth Shaun McNally ymrwymo'r Comisiwn i roi gwybodaeth i'r Pwyllgor mewn amser real ynghylch y trafodaethau cyflog a'r broses symud swyddfa, yn ogystal â gwybodaeth fanwl am y broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â symud swyddfa:

I will commit the organisation to ensure that you are sighted in real time and apprised of the ongoing pay negotiations and also kept up to date with regards to the office move.²⁰

42. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymrwymiad hwn, ond efallai y bydd yn ystyried cynnal cyfarfod canol blwyddyn ychwanegol i sicrhau bod deialog rheolaidd yn digwydd gyda'r Comisiwn.

¹⁹ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 126

²⁰ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 129

Amcangyfrif Diwygiedig 2024-25

43. Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr Amcangyfrif cychwynnol, daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oedd yn gallu cefnogi cais y Comisiwn am £1.658 miliwn, sef cynnydd o 17 y cant o'i gymharu â'r Amcangyfrif ar gyfer 2022-23.

44. Er i'r Pwyllgor ystyried y cais hwn yn ôl ei rinweddau ei hun a nodi'r sylwadau mewn perthynas â thanariannu hanesyddol, gwnaethom hefyd nodi'r gwahaniaeth mawr rhwng y cynnydd hwn a'r codiadau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyrff eraill a ariennir yn uniongyrchol gan y Pwyllgor Cyllid. Nododd y Pwyllgor hefyd y swm canlyniadol negyddol mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol yn Adolygiad o Wariant 2021, a'r pwysau posibl ar Gronfa Gyfunol Cymru pe cytunir ar gynnydd o 17 y cant.

45. Felly, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Comisiwn ar 8 Tachwedd i ofyn iddo fyfyrto ar ei flaenoriaethau ariannu ac ystyried lle byddai newidiadau i'r Amcangyfrif cychwynnol yn cael eu gwneud.

46. Bu'r Pwyllgor yn ystyried Amcangyfrif diwygiedig gan y Comisiwn y tu allan i gyfarfod. Gofynnodd yr Amcangyfrif diwygiedig am £1.56 miliwn, sef cynnydd o 11 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

47. Nid oedd yr Amcangyfrif diwygiedig yn cynnwys y canlynol, a oedd wedi'u tynnu o'r Amcangyfrif cychwynnol:

- £10,000 drwy ailstrwythuro gwasanaethau cyfieithu;
- £22,000 drwy symleiddio cymorth gan y tîm deddfwriaeth, gan leihau'r dyraniad o amser y tîm a neilltuir i Gymru o 20 y cant i 10 y cant; a
- £62,000 drwy ailddyrrannu swydd a oedd wedi'i dyrannu'n anghywir i'r Senedd.

48. Roedd rhan sylweddol o'r adolygiad yn deillio o gamgymeriad yn yr Amcangyfrif cychwynnol, ac nid yw hyn yn cyrraedd y safon y mae'r Pwyllgor yn ei ddisgwyl gan y Comisiwn.

Adroddiadau gan y Comisiwn Etholiadol

49. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, lluniodd y Comisiwn adroddiadau ar gywirdeb a chyflawnrwydd y cofrestrau etholiadol, gan gynnwys adran benodol ar gofrestrau etholiadol mis Rhagfyr 2022 yng Nghymru, ac ar etholiadau lleol mis Mai 2023 yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Adroddiad ar etholiadau lleol mis Mai 2023

50. Ar y cyfan, canfu'r Comisiwn fod yr etholiadau wedi'u rheoli'n dda a bod gan bleidleiswyr hyder yn y system. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad hefyd sawl her i bleidleiswyr, gweinyddwyr ac ymgyrchwyr.

51. Tynnodd yr adroddiad sylw yn benodol at effaith y gofynion i bleidleisiwr ddangos dogfen adnabod ar yr etholiadau. Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

Adroddiad ar gywirdeb a chyflawnrwydd y cofrestrau etholiadol

52. Mae'r adroddiad yn dangos bod bron i 400,000 o bobl ledled Cymru naill ai ar goll neu wedi'u cofrestru'n anghywir i bleidleisio, sy'n golygu nad oes ganddynt lais mewn etholiadau. Mae rhai grwpiau penodol o bobl gryn dipyn yn llai tebygol o fod wedi'u cofrestru'n gywir, yn enwedig pobl ifanc, pobl sy'n rhentu'n breifat, a'r rhai sydd wedi symud cartref yn ddiweddar.

53. Gofynnodd y Pwyllgor sut yr oedd y Comisiwn yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Amlinellodd Rhydian Thomas y gwaith yr oedd y Comisiwn yn ei wneud, yn enwedig mewn perthynas â phobl iau:

I think it's about education, it's about getting to people and to voters at an early age and talking to them about democracy, and then hoping that that message will stay with them as they get to a voting age.²¹

Cynllun Corfforaethol y Comisiwn Etholiadol

54. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn tynnu sylw at y dangosyddion perfformiad y bydd y Comisiwn yn eu defnyddio wrth fesur perfformiad yn erbyn ei amcanion

²¹ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 138

strategol. Mae'n nodi y bydd y Comisiwn yn mesur pa mor dda y mae'n gwireddu'r gwelliannau hyn dros gyfnod y Cynllun Corfforaethol, gan ddefnyddio ystod o ddangosyddion ar gyfer Cymru ac ar draws y DU.

55. Cyflwynodd y Comisiwn ei asesiad o'i berfformiad yn 2022-23 yn erbyn ei ddangosyddion perfformiad corfforaethol ar gyfer 2022-23 ochr yn ochr â'i Amcangyfrif ar gyfer 2024-25.

56. Gofynnodd y Pwyllgor sut y cafodd y dangosyddion perfformiad eu cynnwys yn Amcangyfrif y Comisiwn. Nododd Shaun McNally fod adolygu'r ymgyrchoedd yr oedd y Comisiwn wedi'u cynnal wedi eu galluogi i ddysgu o'u heffaith a gweld pa feysydd yr oedd angen eu cryfhau.

Barn y Pwyllgor

57. Er i'r Pwyllgor nodi'r pwysau amrywiol ar y Comisiwn Etholiadol – gan gynnwys chwyddiant, hawliadau cyflog a'r angen i fynd i'r afael â thanariannu hanesyddol – roedd yn parhau i fod yn bryderus nad oedd y Comisiwn yn cyd-fynd â chyrrff eraill a ariennir yn uniongyrchol. Yn ei adroddiad ar yr amcangyfrif ar gyfer 2023-24, gwnaeth y Pwyllgor annog “y Comisiwn i feddwl yn ehangach o ran arbedion effeithlonrwydd y gallai eu gwneud yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.” Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y Comisiwn wedi bod yn mynd i'r cyfeiriad arall.

58. Nododd y Pwyllgor y sylwadau am danariannu hanesyddol, ac mae digwyddiadau fel yr ymosodiad seiber yn dangos goblygiadau difrifol hyn. Fodd bynnag, ni allwn gefnogi cais y Comisiwn Etholiadol i fynd i'r afael â hyn ar draul yr holl gyrff eraill a ariennir yn uniongyrchol yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai angen gwneud addasiadau o'r fath dros nifer o flynyddoedd, ac efallai na fyddai modd cyrraedd lefel yr hyn y mae'r Comisiwn wedi gofyn amdano o dan y setliad ariannu presennol.

59. Er nad oeddem yn gallu cefnogi'r Amcangyfrif cychwynnol rydym yn ddiolchgar i'r Comisiwn am adolygu ei Amcangyfrif yn unol â dymuniadau'r Pwyllgor.

60. Mae'r Pwyllgor yn annog y Comisiwn i gadw llinellau cyfathrebu ar agor dros y flwyddyn nesaf. Rydym yn pryderu bod y Comisiwn wedi gwneud

penderfyniadau fel caffael swyddfa newydd a gwneud iawn am danariannu cronig heb ddweud wrth y Pwyllgor ymlaen llaw. Nid yw cyflwyno'r costau hyn unwaith y maent eisoes wedi'u cytuno neu hyd yn oed wedi'u talu yn briodol ym marn y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn deall bod y Comisiwn yn sefydliad sy'n gweithredu ledled y DU a bod rhai o'i benderfyniadau gwariant yn cael eu gwneud y tu allan i Gymru, ond dylid trafod y rhai a wneir yng Nghymru gyda'r Pwyllgor cyn gynted ag y byddant yn hysbys.

61. Mae'r Pwyllgor hefyd yn annog y Comisiwn i roi gwybod i ni cyn gynted ag y bydd yn gwybod bod angen cyllid ychwanegol arno drwy gyllideb atodol.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r sicrwydd a ddarparwyd gan y Comisiwn fod yr holl gostau uniongyrchol a gynhwysir yn yr amcangyfrif ariannol diwygiedig ar gyfer 2023-24 yn ymwneud â gwaith y Comisiwn ar etholiadau datganoledig Cymru ac y dylid eu priodoli i Gronfa Gyfunol Cymru.

Casgliad 2. Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor yn fodlon bod yr amcangyfrif ariannol diwygiedig ar gyfer 2024-25 yn gyson â'r ffordd y mae'r Comisiwn yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig Cymru yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Casgliad 3. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'r cynnydd cyflog a ragwelir yn cyfateb i'r cyflogau y mae gweithrediaeth genedlaethol PCS yn galw amdanynt, ac y gallai hyn arwain at gyllideb atodol bellach gan y Comisiwn y flwyddyn nesaf.

Casgliad 4. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y Comisiwn wedi gwneud penderfyniadau ar gostau cyfalaf megis symud swyddfa yng Nghaerdydd heb roi manylion am ei benderfyniadau i'r Pwyllgor.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn Etholiadol yn cynnwys alldroeon gwirioneddol a rhagamcanol wrth gyflwyno ei Brif Amcangyfrif i'r Pwyllgor, a hynny mewn ffordd sy'n glir ac yn hawdd ei deall.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn Etholiadol yn parhau i ddatblygu set o fesurau i werthuso a yw'r buddsoddiad uwch mewn rheoleiddio yn cynnig gwerth am arian.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, ar faterion sy'n ymwneud â gwariant yng Nghymru, bod y Comisiwn Etholiadol yn cadw mewn cysylltiad agosach a mwy rheolaidd ac yn rhoi gwybodaeth fanwl mewn amser real am benderfyniadau a wneir.

Atodiad A: Yr Amcangyfrif Ariannol ar gyfer 2024-25.

Costau'r Senedd	2023-24 (£000oedd)	2024-25 (£000oedd)	Gwahaniaeth (£000oedd)	Gwahaniaeth (%)
Costau Uniongyrchol (tâl a di-dâl)				
Deddfwriaeth (Rhaglen Diwygio Etholiadol)				
	0	44	44	-100%
Amcangyfrif diwygiedig	0	22	22	-100%
Sylwadau				
Mae hyn yn cynrychioli'r adnoddau y bydd eu hangen:				
<ul style="list-style-type: none"> - rheoli cydlyniad deddfwriaeth newydd sy'n cael ei hadolygu a'i bwydo yn ôl er mwyn sicrhau deddfwriaeth ymarferol ar gyfer weinyddwyr etholiadol, pleidleiswyr a phleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr - datblygu, cydlynu a rheoli cynlluniau gweithredu a chyflawni manwl y bydd yn rhaid i'r Comisiwn Etholiadol eu gwneud o ganlyniad i ddiwygio etholiadol yng Nghymru. - gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i nodi a monitro risiau a phroblemau o ran cyflawni prosiectau. 				
Gweinyddiaeth Etholiadol				
Cymru	366	365	-1	0%
Amcangyfrif diwygiedig	366	293	-73	-20%
Sylwadau				
Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gostau cefnogi datblygiad deddfwriaethau sydd i ddod, sef deddfwriaethau sylfaenol ac is-deddfwriaethau, mewn perthynas â diwygio etholiadol a diwygio'r Senedd, gan gynnwys rhoi barn arbenigol ar y tril bil, wrth gymryd i ystyriaeth barn y gymuned etholiadol ledled Cymru. Byddwn hefyd yn cefnogi datblygiad canllawiau ac adnoddau ar-lein ar gyfer ymgeiswyr ac asiantau, Swyddogion Canlyniadau/Swyddogion Cofrestru Etholiadol a gweinyddwyr etholiadol;				

Costau'r Senedd	2023-24 (£000oedd)	2024-25 (£000oedd)	Gwahaniaeth (£000oedd)	Gwahaniaeth (%)
<p>ymateb i ymholiadau am gyngor ac arweiniad a derbynnir dros y ffôn a thrwy e-bost; defnyddio ein safonau perfformiad yn ein hymgysylltiad â Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru i'w cefnogi a'u herio wrth iddynt gyflawni gweithgarwch cofrestru, gan gynnwys y canfasiad blynyddol yn 2024 ac is-etholiadau lleol; gweithio'n agos gyda'r gymuned etholiadol yng Nghymru drwy'r gwahanol grwpiau rhanddeiliaid rydym yn eu rheoli neu'n eistedd arnynt, er enghraifft Panel Pleidiau'r Senedd a Bwrdd Cydlynw Etholiadol Cymru; gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i roi cyngor a barn arbenigol ar y Gorchymyn Ymddygiad drafft ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2026 ac unrhyw ddiwygiadau moderneiddio etholiadol pellach sy'n cael eu datblygu; cefnogi'r gymuned a reoleiddir yng Nghymru i fodloni eu gofynion statudol; paratoi Cod Ymarfer newydd ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau; paratoi Codau Ymarfer newydd ar wariant etholiadol ar gyfer pleidiau ac ymgeiswyr cyn etholiadau'r Senedd yn 2026.</p> <p>Byddwn hefyd yn parhau i gyflawni ein cyfrifoldeb statudol drwy fodloni Safonau'r Gymraeg a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg a byddwn yn arwain ac yn cefnogi'r Comisiwn ehangach i sicrhau bod ein hymrwymiaadau i'r Gymraeg yn cael eu cynnal. Fel rhan o hyn byddwn yn rheoli'r broses o gyfieithu'r holl ddeunydd perthnasol mewn i Gymraeg.</p> <p>Byddwn hefyd yn cefnogi datblygiad a darpariaeth gwybodaeth sy'n codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, gan weithio gyda sefydliadau partner sy'n cefnogi grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru yng Nghymru i hyrwyddo cofrestru pleidleiswyr; byddwn yn parhau i ddatblygu ein hadnoddau addysg ddemocrataidd ar gyfer athrawon a dysgwyr yng Nghymru, gan weithio gydag ysgolion, sefydliadau ieuenctid a phartneriaid allweddol eraill i'w hyrwyddo; a byddwn yn casglu mewnbyn gan bobl ifanc trwy ein rhwydwaith llais ieuenctid i sicrhau bod ein hadnoddau addysg yn bodloni eu hanghenion yn effeithiol. Byddwn hefyd yn arwain ar y trefniadau atebolrwydd i'r Senedd a Phwyllgor y Llywydd gan sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei darparu a bod terfynau amser statudol yn cael eu bodloni, gan sicrhau bod partneriaid allweddol yn y Senedd a Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan ym mhob cam.</p>				
Cymorth a gwelliant	18	18	0	-2%
Sylwadau				

Costau'r Senedd	2023-24 (£000oedd)	2024-25 (£000oedd)	Gwahaniaeth (£000oedd)	Gwahaniaeth (%)
<p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau sy'n gysylltiedig â chefnogi monitro a chefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau i gyflawni eu gwasanaethau cofrestru etholiadol statudol. Mae hefyd yn cynnwys parhau i adolygu'r Safonau Perfformiad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau i sicrhau bod newidiadau deddfwriaethol perthnasol yn cael eu hadlewyrchu yn y fframweithiau safonau perfformiad.</p>				
Canllawiau	45	45	0	-1%
<p>Sylwadau</p> <p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau sy'n gysylltiedig â darparu cyngor mewn ymateb i ymholiadau gan Swyddogion Canlyniadau/Swyddogion Cofrestru Etholiadol a gweinyddwyr etholiadol drwy gydol y flwyddyn. Mae hefyd yn cynnwys y gost o gefnogi'r rhaglen diwygio etholiadol yng Nghymru a diweddarau ein cyfres o ganllawiau ac adnoddau craidd ar gyfer gweinyddwyr etholiadol ac ymgeiswyr ac asiantiaid yn ôl yr angen yng ngoleuni adborth a/neu newidiadau deddfwriaethol.</p>				
<p>Cyfreithiol</p>				
Cyfreithiol	80	102	22	22%
<p>Sylwadau</p> <p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gyfanswm cost darparu cymorth cyfreithiol i swyddogaethau cyngor, arweiniad a rheoleiddio'r Comisiwn. Mae hefyd yn cynnwys cefnogi datblygu unrhyw argymhellion polisi, yn ogystal â rhoi cyngor cyfreithiol cyffredinol a chyffredol ar ddeddfwriaeth Cymru, a chefnogi swyddogaethau'r Comisiwn fel y bônt yn ymwneud â Chymru (gan gynnwys cofrestru, rheoleiddio, polisi, gweinyddu etholiadol, llywodraethu a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg). Mae'r gwaith hwn yn cynnwys rhoi cyngor ar gynigion ar gyfer diwygio etholiadol yng Nghymru a sicrhau bod y Comisiwn yn cyflawni ei rwymedigaethau atebolrwydd i'r Senedd.</p>				
<p>Rheoleiddio</p>				
Rheoleiddio ac adrodd	72	77	5	7%

Costau'r Senedd	2023-24 (£000oedd)	2024-25 (£000oedd)	Gwahaniaeth (£000oedd)	Gwahaniaeth (%)
<p>Sylwadau</p> <p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â'r adrodd ariannol statudol sydd ei angen gan bleidiau gwleidyddol yng Nghymru. Mae'r adroddiadau yn cynnwys adroddiadau rhoddion a benthyciadau chwarterol, a chyflwyniad Datganiad o Gyfrifon blyneddol. Mae hefyd yn cynrychioli'r gyfran honno o'r costau sy'n ymwneud ag adnewyddu manylion plaid gofrestrdedig yn flynyddol ac unrhyw newidiadau i fanylion cofrestru a wneir drwy gydol y flwyddyn.</p>				
Monitro a gorfodi	65	73	8	12%
<p>Sylwadau</p> <p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith cydymffurfio a gorfodi sy'n deillio o bleidiau ac ymgyrchwyr yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys monitro gweithgarwch ymgyrchu pleidiau ac ymgyrchwyr yng Nghymru. Mae ein gwaith monitro yn ein helpu i adnabod ymgyrchwyr a allai fod angen ein cefnogaeth i gydymffurfio. Mae hefyd yn cefnogi ein gwaith ymyrryd a gorfodi, os yw'n ofynnol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Pwynt Cyswllt Sengl (SPOC) o fewn pob ardal Heddlu i roi cyngor ac arweiniad yn ystod cyfnod yr etholiad.</p>				
Cefnogaeth reoleiddiol	50	56	6	12%
<p>Sylwadau</p> <p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu a chynnal gwariant, rhoddion a chanllawiau adrodd ar ôl y bleidlais. Rydym hefyd yn darparu gwasanaeth cyngor a chymorth rhagweithiol ac adweithiol sydd wedi'i deilwra i anghenion rhanddeiliaid unigol. Rydym yn gwneud hyn er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r cyfreithiau a'r lefelau uchel o gydymffurfiaeth. Rydym yn darparu ein gwasanaeth cymorth mewn ystod o ffyrdd, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau ysgrifenedig, ymateb i ymholiadau dros y ffôn ac e-bost, darparu hyfforddiant pwrpasol a chynnal gweminarau.</p>				
<p>Cyfathrebu, Polisi ac Ymchwil</p>				

Costau'r Senedd	2023-24 (£000oedd)	2024-25 (£000oedd)	Gwahaniaeth (£000oedd)	Gwahaniaeth (%)
Ymgyrchoedd a hunaniaeth gorfforaethol	41	46	5	13%
<p>Sylwadau</p> <p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o ymgyrchoedd busnes fel arfer a gweithgareddau ymwybyddiaeth y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys datblygu negeseuon ar gyfer ymgyrchoedd fydd yn cael eu cynnal yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf.</p>				
Cyfathrebu digidol a phleidleiswyr	78	78	0	0%
<p>Sylwadau</p> <p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gostau tîm Cyfathrebu Digidol a thîm Ymgysylltu â Phleidleiswyr y Comisiwn yn seiliedig ar ein hamcangyfrif o sut y caiff eu hamser ei dreulio. Byddwn yn parhau i gynnal rhwydwaith Llais Ieuenctid ar gyfer Cymru, a bydd ein partner llais ieuenctid yn parhau i wneud gwaith ymgynghori gyda phobl ifanc ledled Cymru, i gael eu hadborth a'u mewnbwn ar ein hadnoddau i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn addas i'r diben. Byddwn hefyd yn parhau i adeiladu ar ein gwaith llythrennedd gwleidyddol presennol drwy greu adnoddau sy'n annog grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru i bleidleisio a chymryd rhan mewn democratiaeth.</p> <p>Mae hyn hefyd yn cynnwys ein gwaith cyfathrebu digidol. Mae ein tîm Cyfathrebu Digidol yn datblygu ac yn cynnal ein gwefan ddwyieithog a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol, gan gefnogi cyhoeddi gwybodaeth ar draws y Comisiwn yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer ein rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys pleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadol ac ymgyrchwyr.</p>				
Cyfathrebu Allanol	68	65	-3	-4 y cant
<p>Sylwadau</p> <p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gostau cyfathrebu allanol y Comisiwn. Mae'n cynnwys cysylltiadau cyhoeddus a chefnogaeth materion</p>				

Costau'r Senedd	2023-24 (£000oedd)	2024-25 (£000oedd)	Gwahaniaeth (£000oedd)	Gwahaniaeth (%)
<p>cyhoeddus i'r tîm yng Nghymru. Blaenoriaeth fydd darparu cefnogaeth i'r tîm wrth iddynt ymateb i ddeddfwriaeth diwygio etholiadol newydd sy'n mynd drwy'r Senedd, yn ogystal â chyfathrebu â rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd yng Nghymru ar gyhoeddi holl adroddiadau ac ymchwil y Comisiwn.</p>				
Ymchwil	47	31	-16	-35%
<p>Sylwadau Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o weithgareddau ymchwil busnes fel arfer.</p>				
Polisi	53	53	0	1%
<p>Sylwadau Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o weithgareddau polisi busnes fel arfer, gan gynnwys gwaith i gefnogi Llywodraeth Cymru a'r Senedd wrth iddynt ystyried cynigion polisi a deddfwriaeth newydd sy'n deillio o raglen diwygio etholiadol y Llywodraeth.</p>				
Cyfanswm Costau uniongyrchol	983	1052	69	7%
Cyfanswm costau uniongyrchol diwygiedig	983	958	-25	-3%
<p>Costau Anuniongyrchol</p>				
Adnoddau	304	454	150	49%
<p>Sylwadau 5% o gostau swyddfa gefn. Mae costau cyfleusterau'n cynnwys rhent, cyfraddau, taliadau gwasanaeth, glanhau a chyfleustodau ar gyfer y swyddfa yng Nghaerdydd. Mae costau TGCh yn cynnwys trwyddedau meddalwedd ar gyfer datrysiadau fel Office365, Windows Desktop, Webex, a datrysiadau Cyllid ac Adnoddau Dynol. Mae'r costau hefyd yn cynnwys costau cynnal i ddal data yn y cwmwl Azure. Mae hyn hefyd yn cynnwys costau parhaus o ran cyllid, Adnoddau Dynol a rheoli</p>				

Costau'r Senedd	2023-24 (£000oedd)	2024-25 (£000oedd)	Gwahaniaeth (£000oedd)	Gwahaniaeth (%)
Dibrisiant	127	92	-35	-28%
Sylwadau 5% o'r dibrisiant ar gyfer gwariant cyfalaf, gan gynnwys uwchraddio'r system Cyllid Gwleidyddol a systemau eraill megis cyfarpar Cynadleddau fideo a gliniaduron.				
Cyflogau 2024-25		61	61	-100%
Sylwadau 8% o Gyfanswm y Bil Cyflog ar gyfer y flwyddyn.				
Cyfanswm costau anuniongyrchol	431	606	175	41%
Cyfanswm cyfraniadau	1414	1658	244	17%
Cyfanswm cyfraniadau diwygiedig	1414	1564	150	11%